



Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac  
Economaid, Data a Dulliau Cymru  
Wales Institute of Social & Economic  
Research, Data & Methods

---

# Cynnydd a Chwyrp Melinau Trafod yng Nghymru

---

Adroddiad gan Sefydliad Bevan a rôl  
melinau trafod yng Nghymru

Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020

*Rhagair gan yr Athro Sally Power*



**Awduron:**

Victoria Winckler, Bevan Foundation

**Cyswllt Hwb WISERD:**

Swyddog Cyfathrebu

Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD)

Prifysgol Caerdydd

38 Plas y Parc

Caerdydd

CF10 3BB

Ebost: [WISERD.Comms@caerdydd.ac.uk](mailto:WISERD.Comms@caerdydd.ac.uk)

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC).*

© Awduron

Cedwir pob hawl. Peidiwch â dyfynnu heb ganiatâd. I gael caniatâd i ddyfynnu, cysylltwch â Swyddog Cyfathrebu WISERD.

# Cynnwys

Rhagair .....	4
1. Cyflwyniad .....	5
2. Beth yw 'melin drafod' .....	5
3. Yr hyn mae melinau trafod yn ei wneud .....	8
4. Melinau trafod yn y gymdeithas sifil .....	9
5. Ymddangosiad melinau trafod yng Nghymru.....	11
5.1. Y don gyntaf: melinau trafod cymdeithas sifil annibynnol .....	11
5.2. Yr ail don: melinau trafod yn seiliedig ar dystiolaeth.....	12
5.3. Y drydedd don: melinau trafod gwleidyddol .....	13
6. Yr hyn y mae melinau trafod Cymru yn ei wneud .....	14
6.1. Mathau o weithgareddau.....	14
6.2. Statws cyfreithiol a chyllid .....	15
7. Heriau.....	19
7.1. Tryloywder .....	19
7.2. Cynaliadwyedd ariannol .....	19
7.3. Ansawdd yr allbwn .....	20
7.4. Agosrwydd gwleidyddol.....	20
7.5. Effaith .....	21
8. Casgliad.....	21

## Rhagair

Mae'r adroddiad mewnweledol ac addysgiadol hwn yn gwneud cyfraniad mawr at ein dealltwriaeth o felinau trafod yng Nghymru.

Gellir dadlau ein bod yn byw mewn cyfnod lle mae mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth nag a fu erioed - mewn sut mae penderfyniadau a wneir ym Mrwsel, San Steffan neu'r Senedd yn cael effaith ar ein bywydau o ddydd i ddydd. Pwy fyddai wedi meddwl, er enghraifft, y byddai'r gwasanaeth ffrydio'n fyw, *BBC Parliament*, yn gweld cynnydd mwyaf mewn cynulleidfa unrhyw sianel deledu yn 2019?

Mae mwy o ymwybyddiaeth o fewn y gymdeithas sifil o'r cydberthnasau rhwng polisi a llesiant - p'un a yw hyn yn ymwneud, er enghraifft, â phryderon am ganlyniadau economaidd ac iechyd posib gadael yr Undeb Ewropeaidd neu'r teimladau o ymleiddio a all gael eu profi gan y rheini a wnaeth bleidleisio 'gadael' os byddwn yn 'aros'.

Fodd bynnag, er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol, mae dadleuon gwleidyddol ar hyn o bryd yn ymweld fel petai'n hybu emosiwn yn lle eglurder meddwl, drwy gythreulio'r ochr arall yn lle dangos parodrwydd i drafod.

Yn y cyfnod cynhyrfus hwn, mae gan felinau trafod ran bwysig i'w chwarae. Maent yn gweithredu fel peiriau ar gyfer cynhyrchu trafodaeth ar sail dystiolaeth o fewn y gymdeithas sifil. Maent hefyd yn cynnig lle ar gyfer lledaenu a thrafod syniadau newydd sydd yn ddiffygiol yn ôl pob golwg mewn manau eraill.

Mae melinau trafod yng Nghymru yn enwedig o bwysig i Gymru, gwlad y mae ei buddiannau'n cael eu hanghofio'n aml gan feysydd polisi a chyfryngau dan ddylanwad trwm San Steffan. Fodd bynnag, maent yn wynebu nifer o heriau yn ogystal â chyfleoedd, fel y dengys yr adroddiad hwn.

Hoffwn ddiolch i Victoria Winckler am yr hanes clir ac ysgolheigaidd hwn.

**Yr Athro Sally Power**

**Cyfarwyddwr WISERD**

# 1. Cyflwyniad

Mae melinau trafod wedi'u hen sefydlu ledled y byd ac maent wedi bod ers degau o flynyddoedd. Mae o leiaf 14 o felinau trafod yn y DU a gafodd eu sefydlu cyn 1945 a sefydlwyd llawer mwy ers hynny.<sup>1</sup> Heddiw, amcangyfrifir bod oddeutu 150 o felinau trafod yn y DU, heb gynnwys 'sefydliadau dadansoddi polisi mewn prifysgolion', gyda'r 30 mwyaf adnabyddus ag incwm cyfunol o £111 miliwn yn 2017.<sup>2</sup>

Mae melinau trafod fel ffenomen wedi denu rhywfaint o ddiddordeb academiaidd, yn enwedig yn yr UDA, ac mae hefyd elfen o bryder cyhoeddus – er enghraifft, ynglŷn â phwy sy'n eu hariannu a safon gwaith rhai o'r melinau trafod. 'Shadowy'<sup>3</sup> a 'murky'<sup>4</sup> yw dau yn unig o'r cyhuddiadau sydd wedi'u cyfeirio atynt ac mae rhai wedi dweud y dylent golli eu statws elusenol.<sup>5</sup>

Mae melinau trafod Cymru yn eithaf newydd ac yn gymharol fach ar y cyfan. Mae'r hynaf ond yn 32 mlwydd oed ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt eto wedi dathlu eu penblwydd yn ddeg oed. Yn wahanol i felinau trafod y DU, nid ydynt wedi denu unrhyw sylw academiaidd o gwbl yn ôl pob golwg. Serch hynny, mae melinau trafod yn chwarae rôl gynyddol yng Nghymru ac o fewn polisi cyhoeddus Cymru, o drefnu ac ysgogi trafodaethau cyhoeddus, cyhoeddi adroddiadau ac erthyglau, ac ymateb i ymgynghoriadau ac ymholiadau Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â hybu arfer da.

Ar adeg pan mae melinau trafod wedi'u hen sefydlu yng Nghymru, mae'n amserol ystyried eu datblygiad a'u rôl o fewn y gymdeithas sifil heddiw. Mae'r papur hwn yn darparu trosolwg cryno o beth o'r llenyddiaeth ar felinau trafod a'r gymdeithas sifil, ac wedyn yn rhoi hanes o'r ffordd y mae melinau trafod Cymru wedi dod i'r amlwg a'r hyn maent wedi'i wneud, cyn edrych ar yr heriau sy'n eu hwynebu yn y degawd nesaf.

## 2. Beth yw 'melin drafod'

Mae'r hyn a ddiffinnir 'melin drafod' wedi cynhyrchu llawer o lenyddiaeth a llawer o drafod academiaidd. Er gwaethaf hyn, nid oes diffiniad a dderbynnir gan lawer. Mae llawer o'r llenyddiaeth ar yr hyn a ddiffinnir melin drafod yn deillio o'r byd academiaidd yn yr UDA ac yn adlewyrchu rôl melinau trafod yng ngwleidyddiaeth a chymdeithas sifil yr UDA. Mae llawer llai o drafod am felinau trafod yn y DU, ac, yn drawiadol, ychydig bach ymysg melinau trafod eu hunain. Yn arwyddocaol, yn ôl pob golwg nid oes unrhyw ystyriaeth o felinau trafod mewn cyd-destunau datganoledig neu leol, mewn cyferbyniad â'r llenyddiaeth eang ar felinau trafod mewn gwledydd datblygedig.

Mae dwy ffordd o ddiffinio melinau trafod a nodwyd gan McGann<sup>6</sup>. Mae'r diffiniad eang yn diffinio melin drafod fel sefydliad sy'n darparu gwaith ymchwil, dadansoddi a chynghor mewn

---

<sup>1</sup> Day, A.J. (2002) **Think tanks in Western Europe**, yn McGann, J.G. a Weaver, R.K. (2002) *Think tanks & civil societies*. Transaction: New Jersey

<sup>2</sup> Talbot, C. a Talbot, C. (2019) **Is public policy trapped in think tanks?** *Civil Service World*, 19 Awst.  
<https://www.civilserviceworld.com/articles/opinion/opinion-public-policy-trapped-think-tanks>

<sup>3</sup> Green, J. (2017) **The shadowy think tanks that run the world**, 21 Tachwedd. *Morning Star*  
<https://morningstaronline.co.uk/article/shadowy-think-tanks-run-world>

<sup>4</sup> Medvetz, Thomas (2012) **Murky Power: 'Think Tanks' as Boundary Organizations** yn Courpasson, D., Golsorkhi, D. a Sallaz, J. (Gol.) *Rethinking Power in Organizations, Institutions, and Markets (Research in the Sociology of Organizations, Cyf. 34)*, Emerald Group Publishing Limited, Bingley

<sup>5</sup> Ainsworth, D. (2018) **Should think tanks lose charity status?** *Civil Society*, 12 Tachwedd  
<https://www.civilsociety.co.uk/voices/david-ainsworth-should-these-think-tanks-lose-charity-status.html>

<sup>6</sup> McGann, J. (2016) **The Fifth Estate: Think Tanks, Public Policy, and Governance**. Brookings Institution Press: Washington

perthynas â pholisi cyhoeddus. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Melinau Trafod a Chymdeithasau Sifil (TTCSP) ym Mhrifysgol Pennsylvania yn cynnig y diffiniad canlynol:

Mae melinau trafod yn sefydliadau sy'n cynnal gwaith ymchwil, dadansoddi ac ymgysylltu ar bolisi cyhoeddus. Maent ... yn cynhyrchu gwaith ymchwil, dadansoddi a chynghor ym maes polisi ar faterion domestig a rhyngwladol sy'n galluogi llunwyr polisiau a'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am faterion polisi cyhoeddus.<sup>7</sup>

Mae'r diffiniad hwn felly yn cwmpasu canolfannau ymchwil prifysgolion, grwpiau buddiant ac asiantaethau'r llywodraeth, yn ogystal â sefydliadau polisi annibynnol mwy confensiynol. Adlewyrchir ehangder y sefydliadau a ystyrir yn felinau trafod yn y rhestrau a geir yn Global Go To Think Tank Index y TTCSP. Mae adroddiad 2018<sup>8</sup> yn cynnwys cymysgedd eclecticig o sefydliadau'r DU, sy'n amrywio o ganolfannau ymchwil prifysgolion fel yr Uned Ymchwil Polisi Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Sussex ac IDEAS yn Ysgol Economaidd Llundain, i elusennau fel Amnest Rhyngwladol. Mae nifer o'r melinau trafod a restrwyd wedi'u herio dros eu tryloywder ac annibyniaeth, gan gynnwys Cynghrair y Trethdalwyr, Sefydliad Adam Smith a'r Sefydliad Materion Economaidd.

Mae gan Gymru ei felin drafod ei hun wedi ei rhestru yn y mynegai hyd yn oed - Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ehangder, ceir nifer o felinau trafod y DU sy'n weddol adnabyddus, fel y Sefydliad Resolution a Sefydliad Joseph Rowntree, sydd heb eu cynnwys yn y mynegai ac nid oes unrhyw sefydliadau Cymreig eraill chwaith.

Bu nifer o ymgeisiau i fireinio'r diffiniad eang hwn. Mae Pautz yn dadlau y dylid ystyried ymgynghoriaethau rheoli yn felinau trafod, nid yn unig gan eu bod yn cynnig cynghor ar bolisi i lywodraethau ond hefyd oherwydd eu rôl gynyddol mewn llywio polisi'r llywodraeth.<sup>9</sup> Mae sawl un arall wedi dadlau bod ymreolaeth yn faen prawf pwysig, er bod Stone wedi galw'r pwyslais ar ymreolaeth yn 'Anglo-American predilection'<sup>10</sup> tra bo McGann yn cyfeirio at felinau trafod a noddir gan y wladwriaeth yn yr Almaen a'r Iseldiroedd ac i'r RAND Corporation yn yr UDA a ariennir gan y llywodraeth.<sup>11</sup>

Bu dadl debyg ynglŷn â statws ariannol melinau trafod. Ymysg eraill, mae McGann a Weaver wedi dadlau y dylai melinau trafod fod yn sefydliadau dielw,<sup>12</sup> maen prawf y mae Pautz yn cwestiynu fel rhywbeth sy'n cuddio'r cyfnewidiau ariannol sy'n sail i bron pob gweithgaredd gan felin drafod, p'un a yw'n sefydliad sy'n gwneud elw ai peidio.<sup>13</sup>

Mae diffiniad mwy cul yn seiliedig ar y math o sefydliad neu ei swyddogaeth. Mae McGann yn crynhoi'r rhain fel a ganlyn: prifysgolion heb fyfyrwyr (h.y. nad ydynt yn dyfarnu graddau), ymchwilwyr dan gontract a melinau trafod sy'n cynnig gwasanaeth eirioli, a melinau trafod porthi balchder (y rheini a sefydlwyd er mwyn gogoneddu eu sefydlydd).<sup>14</sup> Fodd bynnag, mae beirniaid wedi dadlau nad yw'r math o sefydliad yn pennu sut mae'r felin drafod yn gweithredu, o leiaf yn y DU a'r UDA. Mae Medvetz<sup>15</sup> yn ystyried melinau trafod yn ddulliau

<sup>7</sup> Tudalen we **Global Go To Think Tanks Index** <https://www.gotothinktank.com/global-goto-think-tank-index> cyrchwyd ar 27 Medi 2019

<sup>8</sup> McGann, J. (2019) **2018 Global Go To Think Tank Index Report**. Rhaglen Melinau Trafod a Chymdeithasau Sifil: Sefydliad Lauder, Prifysgol Pennsylvania <https://www.gotothinktank.com/global-goto-think-tank-index>

<sup>9</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. *Public Policy and Administration*, 26(4), 419–435.

<sup>10</sup> Stone, D. a Denham, A. (2004) **Think Tank Traditions: Policy Analysis Across Nations**. Manchester University Press: Manceinion, t.2

<sup>11</sup> McGann, J. (2016) **The Fifth Estate: Think Tanks, Public Policy, and Governance**. Brookings Institution Press: Washington

<sup>12</sup> McGann, J.G. a Weaver, R.K. (2002) **Think tanks & civil societies**. Transaction: New Jersey

<sup>13</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. *Public Policy and Administration*, 26(4), 419–435.

<sup>14</sup> McGann, J. (2016) **The Fifth Estate: Think Tanks, Public Policy, and Governance**. Brookings Institution Press: Washington

<sup>15</sup> Medvetz, T. (2014) **Think tanks in America**. University of Chicago Press: Chicago

sefydliadol – yn hytrach na sefydliadau ynddynt eu hunain – am uno arbenigedd a grëir gan sefydliadau sefydledig. Byddai'r diffiniad hwn felly yn cynnwys gweithgareddau fel grwpiau gorchwyl a gorffen neu gomisiynau neu adolygiadau annibynnol. Mae Stone<sup>16</sup> yn awgrymu bod hwn yn fath newydd o felin drafod sy'n dod i'r amlwg mewn ymateb i amgylchiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol sy'n newid.

Mae rhai academyddion wedi anwybyddu diffiniadau, gan ddiffinio melinau trafod fel 'sefydliadau sy'n disgrifio'u hunain fel y cyfryw'.<sup>17</sup> Fodd bynnag, ni fyddai pob sefydliad sy'n disgrifio ei hun fel 'melin drafod' yn cael ei ystyried yn un gan eraill,<sup>18</sup> ac nid yw'r holl 'felinau trafod' a gydnabyddir yn eang yn defnyddio'r term eu hunain chwaith. Er enghraifft, erbyn hyn mae Sefydliad Joseph Rowntree, Sefydliad Young a Sefydliad New Economics i gyd yn dileu'r geiriau 'melin drafod' o'u gwefannau, er y byddai nifer yn eu hadnabod o dan y teitl hwn.

Drwy gydol y drafodaeth academaidd, ceir diffyg safbwyntiau gan ymarferwyr melinau trafod. Mae dwy astudiaeth ddiweddar sy'n deillio o felinau trafod eu hunain yn pwysleisio mai nodwedd ddiffiniol melin drafod yw ei phwrpas craidd. Mae Lodge a Paxton, sy'n rhan o'r Royal Society for the Arts (RSA), yn dadlau bod melinau trafod yn canolbwyntio ar bolisi a bod ganddynt ymwybyddiaeth wleidyddol.<sup>19</sup> Maent yn meddwl bod melinau trafod yn canolbwyntio ar ddatrys problemau yn lle ceisio gwybodaeth er ei mwyn ei hun. Ac maent yn nodi hefyd fod gan felinau trafod strategaethau soffistigedig i gael eu hargymhellion wedi'u mabwysiadu – er enghraifft, trwy weithredu mewn rhwydweithiau gwleidyddol. O'r herwydd, maent yn wahanol i brifysgolion ar yr un llaw ac i grwpiau buddiant arbenigol ar y llaw arall. Yn yr un modd, gan dynnu ar ei phrofiad yn Sefydliad New Economics ac ar gyfweiliadau ag arweinwyr melinau trafod, mae Slay yn dadlau bod dwy o nodweddion diffiniedig melinau trafod yn perthyn i'w diben. Y rhain yw, yn gyntaf, eu bod yn ceisio dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth a phleidiau gwleidyddol ac, yn ail, eu bod yn flaengar ac yn datblygu syniadau newydd ynglŷn â pholisïau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol neu dramor.

O'r safbwynt hwn, mae melinau trafod yn sefydliadau sy'n bodoli yn bennaf neu yn unig i ddatblygu syniadau a pholisïau newydd ac i ddylanwadu ar y llywodraeth. Fel y cyfryw, er y gall llawer o wahanol fathau o sefydliadau geisio datblygu polisïau a dylanwadu ar y llywodraeth, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn eu gwneud yn 'felin drafod'.

I grynhoi, yn ôl pob golwg nid yw'r ddadl ynglŷn â diffinio melinau trafod yn unrhyw agosach at gael ei datrys na phan ddechreuodd dros ugain mlynedd yn ôl a gellir dadlau ei bod wedi taflu ychydig o oleuni ar y mater. Fodd bynnag, ymhlith y trafodaethau mae tair thema graidd: bod melinau trafod yn penderfynu ar eu hagenda eu hunain, bod melinau trafod yn canolbwyntio ar newid polisi cyhoeddus, a'u bod yn gwneud hyn yn bennaf drwy geisio am ddylanwad gwleidyddol. Mae'r tair nodwedd hyn yn gwahaniaethu melinau trafod rhwng ymgynghoriaethau rheoli a grwpiau gorchwyl a gorffen ar yr un llaw, a phrifysgolion ar y llaw arall.

---

<sup>16</sup> Stone, D. (2005) **Think Tanks and Policy Advice in Countries in Transition**. Asian Development Bank. <https://www.adb.org/sites/default/files/publication/156673/adbi-dp36.pdf>

<sup>17</sup> Schlesinger, P. (2009) **Creativity and the experts: New Labour, think tanks, and the policy process**. International Journal of Press / Politics, 14 (1). tt. 3-20. ISSN 1940-1612

<sup>18</sup> Lodge, G. a Paxton, W. (2017) **Innovation in Think Tanks Policy influence and change in developing countries**. Royal Society for the Arts: Llundain. [https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa\\_innovation-in-think-tanks.pdf](https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa_innovation-in-think-tanks.pdf)

<sup>19</sup> Lodge, G. a Paxton, W. (2017) **Innovation in Think Tanks Policy influence and change in developing countries**. Royal Society for the Arts: Llundain. [https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa\\_innovation-in-think-tanks.pdf](https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa_innovation-in-think-tanks.pdf)

### 3. Yr hyn mae melinau trafod yn ei wneud

Mae melinau trafod yn ymgymryd yn bennaf â gweithgareddau sy'n eithaf tebyg. Mae Stone<sup>20</sup> yn disgrifio'r hyn y maent yn ei wneud fel 'delwyr ail-law mewn syniadau', gan ddadlau bod melinau trafod yn pecynnu syniadau neu gynigion polisi pobl eraill a'u gwneud yn ddeniadol. Mae'n awgrymu nad yw melinau trafod yn ymgymryd yn gyffredinol ag ymchwil sylweddol eu hunain – safbwynt y gallai sefydliadau fel Sefydliad Resolution a'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, sydd â rhaglenni ymchwil eang, ei herio.

Mae Slay<sup>21</sup> yn seilio'i hadroddiad ar weithgareddau gan felinau trafod cyfoes yn y DU, sydd, yn ôl hi, yn ymgymryd â'r tasgau canlynol:

1. Newid termau'r ddadl am bwnc neu a yw'n cael ei ddadlau o gwbl;
2. Denu sylw at ystadegau a dadansoddiadau newydd;
3. Creu argymhellion i'r llywodraeth.

O ran newid termau'r ddadl, mae Slay yn dadlau bod rhai melinau trafod yn gallu creu syniadau gwirioneddol newydd. Maent yn gallu creu gwagle lle gall syniadau newydd ddatblygu nad ydynt efallai ar yr agenda gyhoeddus a gwleidyddol. Meddai:

“Maent yn gallu chwarae rôl bwysig wrth ddechrau gwneud i'r hyn na ellir synied amdano ddod yn bosibl, a chreu gofod lle y gall gwleidyddion a llunwyr barn ymgysylltu â syniadau, a hynny mewn modd diogel, a all gael eu hystyried yn fentrus yn wleidyddol.”

Mae melinau trafod hefyd yn gweithredu fel 'delwyr ail-law mewn syniadau', er nad yw'r syniadau hynny yn deillio o'r byd academiaidd o reidrwydd. Mae Neal Lawson, sefydlydd melin drafod Compass, yn tynnu sylw at y ffaith y gall syniadau ddeillio o fudiadau cymdeithasol hefyd, fel y rheini ar gyfer y cyflog byw. Ni ddylid gwawdio ailbecynnu syniadau a chreu naratif er mwyn iddynt fod yn ddeniadol i'r cyhoedd a gwleidyddion ill dau. Mae Lodge a Paxton yn dadlau ei fod yn rhan o'r broses o addasu syniadau polisi i gwrdd ag amgylchiadau lleol, a'i fod yn enwedig o bwysig lle bo gallu polisi'r llywodraeth yn wan.<sup>22</sup>

O ran dadansoddi newydd, mae rhai melinau trafod bellach yn cael eu parchu ac yn cael eu hystyried yn ffynonellau arbenigedd hygred ym meysydd fel, er enghraifft, dadansoddi cyllidol neu'r farchnad lafur. Defnyddir eu dadansoddiadau yn aml i ddal y llywodraeth i gyfrif – er enghraifft, ar ôl cyhoeddi cyllideb Llywodraeth y DU. Mae hyd yn oed gan felinau trafod sy'n cyfuno dadansoddi â swyddogaethau eraill arbenigedd – neu o leiaf eu bod yn hawlio felly. Mae Stone yn nodi sut y mae melinau trafod yn mabwysiadu enwau ac arferion ffug-academiaidd, ac yn aml yn pwysleisio'u gwybodaeth mewn maes penodol.<sup>23</sup>

Y trydydd gweithgaredd, a'r un sydd efallai fwyaf adnabyddus, yr ymglymerir ag ef gan felinau trafod yw gwneud argymhellion polisi, fel arfer i'r llywodraeth. Fel y nodir Slay, gall yr argymhellion fod am 'ddarnau polisi pennawd mawr ... neu ... newidiadau polisi bach sy'n rhan o'r fframwaith polisi cyfredol'. Mae'n llawer mwy anodd i felinau trafod ffurfio polisïau 'pennawd mawr', er nad yw'n amhosib, ond nid yw newidiadau bach hyd yn oed heb eu heriau.

<sup>20</sup> Stone, D. (1996) **Capturing the political imagination: think tanks and the policy process**. Frank Cass: Llundain

<sup>21</sup> Slay, J. (2017) Impact: an enquiry into how think tanks create change. Rhaglen Arweinyddiaeth Gymdeithasol Clore: [https://www.cloresocialleadership.org.uk/assets/resources/Research-docs/Julia\\_Slay\\_Impact\\_how\\_think\\_tanks\\_create\\_change-FINAL.pdf](https://www.cloresocialleadership.org.uk/assets/resources/Research-docs/Julia_Slay_Impact_how_think_tanks_create_change-FINAL.pdf)

<sup>22</sup> Lodge, G. a Paxton, W. (2017) **Innovation in Think Tanks Policy influence and change in developing countries**. Royal Society for the Arts: Llundain. [https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa\\_innovation-in-think-tanks.pdf](https://www.thersa.org/globalassets/pdfs/reports/rsa_innovation-in-think-tanks.pdf)

<sup>23</sup> Stone, D. (1996) **Capturing the political imagination: think tanks and the policy process**. Frank Cass: Llundain



Nid yw melinau trafod yn bennaf yn rhan o brosesau gwleidyddol ffurfiol ac, felly, i gael eu syniadau i mewn i'r llywodraeth, maent yn gweithredu yn yr ymylon gwleidyddol, a dyna pam ystyrir bod angen iddynt fod â dealltwriaeth wleidyddol graff. Mae yna lawer o adroddiadau am sut y mae melinau trafod wedi mabwysiadu strategaethau i gael mynediad i uwch-benderfynwyr ac i'w perswadio o fanteision eu cynigion. Fodd bynnag, mae Slay yn awgrymu bod cael dylanwad yn fwy cymhleth na chael mynediad uwch i wleidyddwyr, cynghorwyr a gweision sifil.

Mae Slay yn adleisio Stone wrth ddod i'r casgliad fod angen 'cynnig unigryw sy'n apelio'n wleidyddol' ar felinau trafod, yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i atgyfnerthu gan glymblaid o bartneriaid yn gofyn am yr un peth. Efallai tanamcangyfrifir rôl ymgyrchoedd a chynghreiriau mewn cyflawni newidiadau yn y DU, er bod hwn yn ddull sydd wedi'i fabwysiadu gan rai melinau trafod dylanwadol fel y Ganolfan ar gyfer Cydraddoldeb Cymdeithasol ac, yn fwy diweddar, Sefydliad Joseph Rowntree. Yn ddiddorol, tacteg a argymhellir ydyw ar gyfer melinau trafod mewn economïau datblygol.<sup>24</sup>

Caiff melinau trafod eu helpu neu eu rhwystro gan yr hinsawdd wleidyddol. Mae llawer yn fwy tebygol y bydd argymhellion melin trafod yn cael eu mabwysiadu os yw ei gwerthoedd a'i diddordebau yn cyd-fynd â'r rheini sydd gan benderfynwyr allweddol. Pan nad yw'r hinsawdd wleidyddol yn iawn ar gyfer eu math arbennig o argymhellion, mae Slay yn awgrymu y gall melinau trafod greu gofod ar gyfer dadlau syniadau amgen.

## 4. Melinau trafod yn y gymdeithas sifil

Fel gyda diffiniadau o felinau trafod, nid yw'n syndod fod ystod eang o safbwyntiau gwahanol o ran eu rolau yn y gymdeithas sifil. O safbwynt lluseddol, gwelir melinau trafod fel un o nifer o fathau gwahanol o weithredwyr yn y gymdeithas sifil.<sup>25</sup> Mae'u cynigion polisi yn cystadlu mewn 'marchnad syniadau', gyda'r cynigion gwell yn ennill cefnogaeth penderfynwyr.<sup>26</sup> Yn hanfodol, mae'r safbwynt hwn yn cysylltu cymdeithasau sifil cryf a diwylliannau gwleidyddol lluseddol â melinau trafod cadarn ac amrywiol.<sup>27</sup>

Mae beirniaid fel Pautz<sup>28</sup> yn dadlau nid yw'r adroddiadau lluseddol hyn yn cydnabod cysylltiadau pŵer wrth gystadlu am syniadau. Nid yw hyn yn bryder academaidd yn unig: mae tryloywder melinau trafod – ac yn enwedig pwy sy'n eu hariannu ac felly buddiannau pwy maent yn eu hadlewyrchu – yn gwestiwn sydd wedi codi i'r amlwg yn ddiweddar. Cydnabyddir gan lawer hefyd fod nifer cymharol fawr o felinau trafod marchnad rydd a llawer llai sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, gan adlewyrchu'n rhannol fuddiannau noddwyr busnes. Yn wir, mae Mulgan yn awgrymu bod yn well gan lawer o fusnesau yn y DU gyllido melinau trafod yn lle rhoi i bleidiau gwleidyddol yn uniongyrchol.<sup>29</sup>

Mae theori elfit yn cydnabod yr anghymesureddau pŵer yn y farchnad ar gyfer syniadau ac yn gweld melinau trafod yn cynnal ymchwil ar bolisi 'yn ôl buddiannau eu cyllidwyr' ac wedyn yn rhannau eu canfyddiadau â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.<sup>30</sup> Fodd bynnag, mae

<sup>24</sup> Lodge, G. a Paxton, W. (2017) **Innovation in Think Tanks Policy influence and change in developing countries**. Royal Society for the Arts: Llundain.

<sup>25</sup> McGann, J. (2016) **The Fifth Estate: Think Tanks, Public Policy, and Governance**. Brookings Institution Press: Washington

<sup>26</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. Public Policy and Administration, 26(4), 419–435.

<sup>27</sup> Stone, D. (2005) **Think Tanks and Policy Advice in Countries in Transition**. Asian Development Bank. <https://www.adb.org/sites/default/files/publication/156673/adbi-dp36.pdf>

<sup>28</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. Public Policy and Administration, 26(4), 419–435.

<sup>29</sup> Mulgan, G. (2006) Thinking in tanks: the changing ecology of political ideas. Political Quarterly cyf. 77 rhif 2

<sup>30</sup> Dye (1978) dyfynnwyd yn Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. Public Policy and Administration, 26(4), 419–435.

theori elîf yn cymryd bod yr holl felinau trafod wedi'u cyllido gan fuddiannau corfforedig: mae'n amlwg mai dyma'r achos i rai ond nid yw'n wir i'r holl felinau trafod.

Mae theori elîf hefyd yn cymryd bod perthynas uniongyrchol ac achosol rhwng buddiannau elîf melinau trafod a phenderfyniadau gwleidyddol.<sup>31</sup> Mae rhai tystiolaeth fod gan felinau trafod sydd â safbwynt ideolegol penodol ddylanwad mawr ar bolisi'r llywodraeth. Er enghraifft, ystyrir i felinau trafod fel y Sefydliad Materion Economaidd a Sefydliad Adam Smith gyfrannu'n fawr at esgyniad Thatcheriaeth,<sup>32</sup> tra ystyrir melinau trafod fel y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus a Demos yn allweddol i ddatblygiad Llafur Newydd.<sup>33</sup> Ond nid yw pob melin drafod yn gysylltiedig â phlaid wleidyddol – mae'n rhaid i elusennau yn enwedig fod yn ofalus iawn i osgoi dangos eu cefnogaeth i blaid benodol. Ac mae rhai melinau trafod yn rhagweithiol wrth wrthod buddiannau'r elîf, gan ddewis canolbwyntio'n bwrpasol, er enghraifft, ar bobl sydd ag incwm isel neu ganolig neu ar fodolau economaidd amgen.

Mae Pautz yn cynnig cyfrif arall, neo-Gramsciaeth, o felinau trafod.<sup>34</sup> Mae'n dadlau bod melinau trafod yn 'gyfarpar ideolegol' sy'n creu 'disgyrsiau sy'n cyfreithloni', gan gynnal neu sefydlu hegemoni. Mae Pautz yn lleoli melinau trafod o fewn y gymdeithas sifil ehangach, gan aralleirio Gramsci fel a ganlyn:

Think tanks can be understood as centres 'of formation, of irradiation, of dissemination' of ideas which are not simply 'spontaneously "born" in each individual brain' but need locations where they are produced and from where they can be disseminated as forces in the political struggle for hegemonic equilibrium. (t. 425)

Mae'r rhan fwyaf o hanesion mewnol o weithrediadau melinau trafod yn cadarnhau eu bod yn llywio meysydd gwahanol gwleidyddiaeth, syniadau a gweithredu, gan feithrin rhwydweithiau a chynghreiriau yn aml – neu, chwedl Stone, 'cymunedau epistemig'<sup>35</sup> – i symud eu honiadau yn eu blaen yn ogystal â cheisio mynediad uniongyrchol at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Caiff y modd y gwnaeth un felin drafod wneud hyn ei ddisgrifio'n fyw gan sefydlydd Sefydliad Adam Smith, Madsen Pirie.<sup>36</sup>

Mae'r safbwynt hwn yn anghofio'r nifer sylweddol iawn o felinau trafod sy'n ideolegol – gan gynnwys nifer a fyddai'n honni eu bod am geisio newid radicalaidd i'r drefn gymdeithasol sydd ohoni. Yn ogystal, nid yw nifer o felinau trafod yn asiantau goddefol ond yn myfyrio'n ddwfn ar eu rôl a'u dulliau er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu â buddiannau dosbarth gweithiol neu ymylol a'u mynegi a'u hyrwyddo.

O safbwynt mwy ymarferol, ystyrir yn aml fod melinau trafod yn chwarae rôl gadarnhaol mewn economïau datblygol a democratiaethau. Mae'r Cenhedloedd Unedig, y Cyngor Datblygu Tramor ac eraill i gyd wedi ystyried melinau trafod yn fodd o wella ffyrdd o lunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac o gefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Erbyn hyn, mae melinau trafod yn America Lladin, yr Affrig, Tsieina, India, Rwsia a hyd yn oed Mauritania.<sup>37</sup> Mae Lodge a Paxton yn dadlau bod gan felinau trafod wybodaeth a dealltwriaeth leol y gallant eu defnyddio i ddylanwadu ar y broses o lunio polisi. Yn syml:

<sup>31</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. *Public Policy and Administration*, 26(4), 419–435.

<sup>32</sup> Blank, R.C. (2003) *From Thatcher to the Third Way: Think-Tanks, Intellectuals and the Blair Project*. Ibidem Verlag: Stuttgart

<sup>33</sup> Pautz, H. (2011). **New Labour in Government: Think-Tanks and Social Policy Reform, 1997–2001**. *British Politics*. 6. 187-209. 10.1057/bp.2011.9.

<sup>34</sup> Pautz, H. (2011). **Revisiting the think-tank phenomenon**. *Public Policy and Administration*, 26(4), 419–435.

<sup>35</sup> Stone, D. (1996) **Capturing the political imagination: think tanks and the policy process**. Frank Cass: Llundain

<sup>36</sup> Pirie, M. (2012) *Think Tank: The Story of the Adam Smith Institute*. Biteback: Llundain

<sup>37</sup> Bruckner, T. (2017) *Are think tanks promoting or distorting evidence-based policy?* Ymchwil

<https://www.researchtoaction.org/2017/04/think-tanks-promoting-distorting-evidence-based-policy/>

Maent yn deall sut y mae newid yn digwydd yn eu gwlad. Drwy fod â gwreiddiau lleol, mae ganddynt yn aml y cyfreithlondeb a hygyrdd nad oes gan weithredwyr allanol.

Yn wir, mae Lodge a Paxton yn dadlau bod achos cryf i noddwyr greu màs critigol o felinau trafod er mwyn cefnogi datblygiad, ac y dylid blaenoriaethu hyn dros gefnogi ffurfiau eraill o gyrff anllywodraethol.

## 5. Ymddangosiad melinau trafod yng Nghymru

Mae melinau trafod o unrhyw fath yn ffenomen weddol newydd yng Nghymru. Sefydlwyd y felin drafod gyntaf ym 1987, ac mae'r nifer ohonynt wedi cynyddu i wyth heddiw. Gellir rhannu eu datblygiad yn dri chynod yn fras.

### 5.1. Y don gyntaf: melinau trafod cymdeithas sifil annibynnol

Y cynod rhwng canol y 1980au a'r 2010au cynnar oedd pan ymddangoswyd y tair melin drafod gyntaf yng Nghymru. Mae pob un o'r tair melin drafod hyn yn gyrff dielw ymreolaethol a sefydlwyd gan bobl sy'n weithredol yn y gymdeithas sifil yn lle sefydliad arall. Roedd pob un o'r tair melin drafod wedi'u gwreiddio yn y safbwynt fod y gymdeithas sifil yng Nghymru yn weddol wan, a'u bod am chwarae rôl er mwyn ei chryfhau drwy eu gweithgareddau amrywiol. Maent wedi mabwysiadu safleoedd ideolegol weddol wahanol o fewn y diben eang hwn.

Y felin drafod gyntaf a sefydlwyd yn benodol i weithio yng Nghymru oedd y Sefydliad Materion Cymreig ym 1987. Mae cyn-gadeirydd a chyd-sefydlydd y Sefydliad Materion Cymreig, Geraint Talfan Davies, wedi disgrifio sut deilliodd y syniad o bryderon am gyflwr economi Cymru a'r diffyg syniadau newydd a her i'r sefyllfa bresennol.<sup>38</sup> Roedd y Sefydliad Materion Cymreig yn pryderu bod gweithwyr proffesiynol a busnes heb y mecanwaith i gyfrannu at farn y llywodraeth. Wrth ysgrifennu am gynnig i greu sefydliad, meddai:

Buom yn dadlau bod "y methiant cyffredinol i fachu'r cymunedau deallusol a busnes wrth ddiben cyffredinol ... wedi tloidi trafodaeth a chamau gweithredu ..." Yr hyn oedd ei angen oedd "corff a all ddarparu her ddeallusol reolaidd i arfer presennol".

*tt. 139-140*

Gweithredodd y Sefydliad Materion Cymreig ar sail wirfoddol, gan drefnu ciniawau trafod a seminarau am sawl blwyddyn. Ni chafodd y Sefydliad Materion Cymreig ei staff cyflogedig cyntaf tan y cynod cyn datganoli, ym 1996, ac roedd y llywodraeth ddatganoledig newydd yn darparu ffocws ar gyfer ei waith.

Crëwyd Sefydliad Bevan rhyw 14 mlynedd wedi'r Sefydliad Materion Cymreig, yn 2001. Rhannodd y sefydlwyr bryderon tebyg am ba mor wan oedd y gymdeithas sifil yng Nghymru, a'u nod oedd 'rhoi llais' i bobl oedd wedi eu gwahardd rhag prosesau penderfynu a galluogi pobl i 'ddod at ei gilydd'.<sup>39</sup> Ond tra oedd y Sefydliad Materion Cymreig yn ymwneud i ddechrau â gweithwyr proffesiynol a phobl busnes, roedd Sefydliad Bevan yn canolbwyntio ar bobl mewn sefyllfaoedd llai breintiedig.

Fel y Sefydliad Materion Cymreig, roedd Sefydliad Bevan hefyd yn pryderu ynghylch y diffyg gallu o ran polisi yng Nghymru a'r diffyg her i'r llywodraeth ddatganoledig newydd a'i sefydliadau. Meddai ei gyfarwyddwr cyntaf, Paul Starling:

---

Talfan Davies, G. (2008) **Unfinished business: recollections and reflections on the arts, media and a young democracy**. Seren: Pen-y-bont ar Ogwr

<sup>39</sup> Starling, P. (2001) **Wales must rediscover Bevan**, New Statesman 5 Mawrth

Mae gwactod polisi dwfn yng nghalon gwleidyddiaeth Cymru: ond ychydig o gyfreithwyr sydd gennym a all ddrafftio deddfwriaeth, ac mae gennym hyd yn oed llai o wleidyddion yn y cynulliad sydd â'r gallu i feddwl yn y ffordd sydd ei hangen wrth lunio polisi. Mae'r gwactod polisi yn amlwg – ac anobaith y cyhoedd yn fwy byth.”

Canolbwyntiodd ei waith cynnar hefyd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd newydd ddechrau ar y pryd.

Rhyw 11 mlynedd ar ôl sefydlu Sefydliad Bevan, sefydlwyd Gorwel gan Aelod Cynulliad Ceidwadol David Melding. Cyn ei lansio, gwelodd ef hefyd yr angen am ragor o drafodaeth gyhoeddus ond o safbwynt canol-dde. Meddai:

‘Yn syml, rydym yn teimlo nad yw'r canol-dde, fel grym, ffynhonnell syniadau ac ysbrydoliaeth, wedi cael y flaenoriaeth y mae ei hangen arno, ac mae angen arnom i bobl Cymru gael y polisiâu cymdeithasol ac economaidd gorau posib ... Mae wir i fod yn blatfform ar gyfer trafod syniadau.’<sup>40</sup>

## 5.2. Yr ail don: melinau trafod yn seiliedig ar dystiolaeth

Gwnaeth yr ail don o felinau trafod yng Nghymru gyd-fynd â'r cynnydd mewn diddordeb ym mhwsigrwydd tystiolaeth mewn polisi cyhoeddus. Mae pryder ynglŷn â llunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn dyddio'n ôl at ddyddiau cynnar llywodraeth Blair, ond roedd cyflymdra newydd wrth i lywodraeth glymblaid 2010 lansio rhaglenni amrywiol, gan gynnwys sefydliadau'r DU fel NESTA a'r rhwydwaith o ganolfannau 'Beth sy'n Gweithio'. Eu nod oedd cynorthwyo â'r gwaith o 'gasglu, asesu a rhannu'r dystiolaeth fwyaf cadarn er mwyn llywio'r gwaith o gyflwyno polisiâu a gwasanaethau'.<sup>41</sup>

Daeth y fenter fawr i ddod â thystiolaeth i bolisi cyhoeddus Cymru wrth sefydlu'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Cafodd cynnig i sefydlu sefydliad polisi ei gynnwys ym maniffesto 2011 Plaid Lafur Cymru, gyda'r bwriad clir o ddod â gwaith llunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth i galon y llywodraeth. Roedd Gweinidogion Cymru blaenorol yn awyddus i gyflwyno'u dull fel ymatebion i'r heriau penodol o lywio a datblygu polisi cyhoeddus mewn cyd-destun datganoledig.<sup>42</sup> <sup>43</sup> Fodd bynnag, mae cynnwys canolfan 'Beth sy'n Gweithio' o fewn y corff datganoledig newydd yn awgrymu bod o leiaf peth o ddull Llywodraeth y DU i'w weld yn null Llywodraeth Cymru.

Enillwyd contractau cyntaf Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ar gyfer sefydliad polisi gan gonsortiw m o brifysgolion dan arweiniad Prifysgol Caerdydd. Dechreuodd weithredu fel y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn 2013. Roedd ganddo berthynas gadarn ac uniongyrchol â Gweinidogion Cymru, a gomisiynodd ddarnau gwaith penodol cyn defnyddio cyngor y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru er mwyn 'llywio'n penderfyniadau, canolbwyntio ein hymyriadau, targedu ein polisiâu'<sup>44</sup>.

<sup>40</sup> BBC Wales News (2012) **David Melding AM reveals new social-economic think-tank plan**, 20 Mai <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-18136200>

Llywodraeth y DU (2013) **Datganiad wasg: New world leading evidence centres to drive better decisions across £200 billion of public services** <https://www.gov.uk/government/news/new-world-leading-evidence-centres-to-drive-better-decisions-across-200bn-of-public-services>

<sup>42</sup> Andrews, L. (2017) **How can we demonstrate the public value of evidence-based policy making when government ministers declare that the people 'have had enough of experts'?** *Palgrave Communications* 3,11

<sup>43</sup> Jones, C. (2012) **New Welsh Institute for Public Policy to bridge research and government**. *The Guardian*, 5 Tachwedd <https://www.theguardian.com/public-leaders-network/2012/nov/15/welsh-institute-policy-carwyn-jones>

<sup>44</sup> Prifysgol Caerdydd, dyfynnwyd yn Andrews, L. (2017) **How can we demonstrate the public value of evidence-based policy making when government ministers declare that the people 'have had enough of experts'?** *Palgrave Communications* 3,11

Yn 2017, ar ôl dyfarnu contract newydd gan Lywodraeth Cymru a'r ESRC i Brifysgol Caerdydd, daeth y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal â darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cymru, mae ganddi rôl hefyd fel canolfan 'Beth sy'n Gweithio' ac mae'n ymgymryd â gwaith ymchwil ar ei menter ei hun. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn disgrifio'i rôl bresennol fel a ganlyn:

Mae'r ganolfan yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chynghor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.<sup>45</sup>

Mae'r ganolfan wedi parhau i gyfrannu i broses Llywodraeth Cymru o wneud penderfyniadau, ac mae'r Prif Weinidog presennol wedi dweud:

"Mae'n rhoi inni dystiolaeth annibynnol o safon uchel sy'n herio ein rhagdybiau cyfredol ac yn gwella ein penderfyniadau."<sup>46</sup>

Er mai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru oedd y felin drafod fwyaf sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru o bell ffordd, ac mae'n parhau felly, nid oedd yr unig un i ddod i'r amlwg i ddarparu cynghor seiliedig ar dystiolaeth i'r llywodraeth.

Sefydlwyd y ddwy felin drafod ddiweddaraf sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym Mhrifysgol Abertawe ac nid ydynt yn derbyn cyllid uniongyrchol gan y llywodraeth. Mae Comisiwn Bevan – nad a wnelo ddim byd â Sefydliad Bevan – yn felin drafod sy'n canolbwyntio ar iechyd sy'n cael ei 'chynnal a'i chefnogi' gan Brifysgol Abertawe. Sefydlwyd y comisiwn gan y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart, ar ddiwedd 2008 fel corff cynghori a fyddai'n mynd i'r afael ag 'anghenion Cymru a phryderon y Gweinidog, ond [i fod] hefyd yn annibynnol ac â'r gallu i godi a dadlau materion cynhennus heb ystyriaeth ideolegol'.<sup>47</sup> Trosglwyddwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015<sup>48</sup> ac wedyn i Brifysgol Abertawe yn 2016. Ei nod bellach yw llywio barn ac arfer mewn ystod o sefydliadau iechyd, nid yn unig yng Nghymru ond ar sail fyd-eang.

Sefydlwyd Academi Morgan fel rhan o Brifysgol Abertawe yn 2017. Wedi'i henwi ar ôl Rhodri Morgan, cyn-Brif Weinidog blaenorol a changhellor y brifysgol, ei nod yw defnyddio tystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil i 'ddelio â "phynciau anodd" polisi cyhoeddus yng Nghymru ac yn y byd yn ehangach'.<sup>49</sup> Mae hefyd yn ymwneud ag ystod eang o gyrff a ellid defnyddio ei thystiolaeth, nid yn unig yng Nghymru ond dros bedwar ban byd.

### 5.3. Y drydedd don: melinau trafod gwleidyddol

Mae'r drydedd don a'r don olaf o felinau trafod yn cynnwys cyrff gwleidyddol agored, ac mae'n bosib fod y rhain yn adlewyrchu'r hinsawdd wleidyddol gyfredol. Er y gwnaeth cyn-Weinidog Cymru Huw Lewis geisio sefydlu melin drafod i'r Blaid Llafur yn 2007 o'r enw 'Cymru 20:20', parodd am gyfnod byr yn unig. Sefydlwyd dwy felin drafod ddiweddar yng Nghymru yn 2017. Lansiodd y Ganolfan Astudiaethau Cymreig ym mis Chwefror y flwyddyn honno, wedi'i hysbrydoli gan y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeidd. Mae'n honni mai

<sup>45</sup> Gwefan Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru <https://www.wcpp.org.uk/cy/ynghylch/> cyrchwyd 16 Medi 2019

<sup>46</sup> Eitem newyddion Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn derbyn canmoliaeth am effaith ragorol ar bolisi yng Nghymru, 16 Gorffennaf 2019. <https://www.wcpp.org.uk/cy/erthygl-newyddion/canolfan-polisi-cyhoeddus-cymru-yn-derbyn-canmoliaeth-am-effaith-ragorol-ar-bolisi-yng-nghymru/> cyrchwyd 16 Medi 2019

<sup>47</sup> Comisiwn Bevan (2011) GIG Cymru: Yn creu gwell dyfodol <https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/110606bevan1en.pdf>

<sup>48</sup> Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Comisiwn Bevan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) – adroddiad i'r bwrdd, 15 Ebrill. [http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWPapersDocs.nsf/\(\\$All\)/B9417E47D69DBD9F80257E2A00582393/\\$File/38%2012%20Bevan%20Commission%20hosting%20agreement.pdf?OpenElement](http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PHWPapersDocs.nsf/($All)/B9417E47D69DBD9F80257E2A00582393/$File/38%2012%20Bevan%20Commission%20hosting%20agreement.pdf?OpenElement)

<sup>49</sup> Gwefan Academi Morgan <https://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/academimorgan/morgan-beth-dan-ni-n-ei-wneud/> cyrchwyd 16 Medi 2019

dyma'r unig felin drafod asgell dde ac o blaid Brexit yng Nghymru, ac mae ganddi nifer sylweddol o gefnogwyr Brexit ar ei bwrdd rheoli. Er gwaethaf y sylw mawr a gafodd ei lansiad,<sup>50</sup> mae'r Ganolfan Astudiaethau Cymreig mwy neu lai yn segur – roedd bygythiad i'w dileu o'r rhestr o gwmnïau yn ddiweddar oherwydd diffyg gweithredu.<sup>51</sup>

Ychydig ar ôl i'r Ganolfan Astudiaethau Cymreig ymddangos, lansiwyd Nova Cambria gan Adam Price AC yng nghynhadledd gwanwyn 2017 Plaid Cymru i fod yn 'blatfform ar gyfer syniadau arloesol' sy'n 'mynd i'r afael â dyheadau a phroblemau Cymru'.<sup>52</sup> Mae ganddo gysylltiad cryf â Phlaid Cymru: er enghraifft, mae aelodau Plaid Cymru yn derbyn ei gylchgrawn fel rhan o'u tanysgrifiad ac mae hefyd yn cynnwys nifer o gefnogwyr blaenllaw Plaid Cymru ar ei bwrdd ac fel cyfranwyr at ei waith. Er gwaethaf hyn, mae'n honni darparu 'lle am drafodaeth ar bolisi a dadl an-sectyddol a thrawsbleidiol'.<sup>53</sup>

## 6. Yr hyn y mae melinau trafod Cymru yn ei wneud

Fel melinau trafod mewn mannau eraill yn y DU, mae melinau trafod Cymru yn ystyried syniadau. Ac fel yr holl felinau trafod, mae ganddynt allbwn craidd o erthyglau, adroddiadau a digwyddiadau. Ond er gwaethaf hyn, nid ydynt i gyd yr un peth oherwydd amrywiaeth yn eu hallbynnau a'u ffyrdd o weithio. Mae'r rhan hon yn ystyried gweithgareddau melinau trafod Cymru yn seiliedig ar sut y disgrifir eu gwaith, e.e. ar eu gwefannau neu mewn strategaethau. Mae Tabl 1 yn dangos ystod a graddfa gweithgareddau melinau trafod Cymru, yn seiliedig ar adolygiad o'u gwefannau dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Awst 2019 a'u cyfrifon ac adroddiad blynyddol diweddaraf (os ydynt ar gael).

### 6.1. Mathau o weithgareddau

O ran pwnc, mae dadansoddiad o'r tri adroddiad mwyaf diweddar a gyhoeddwyd ar wefannau melinau trafod yn dangos eu bod bron i gyd yn ystyried materion economaidd-gymdeithasol. Mae'r themâu o fewn hynny yn amrywio ond, fel y gellir disgwyl, yn ystyried mwyaf (ond nid yn unig) faterion datganoledig yn hytrach na chyfrifoldebau Llywodraeth y DU.

O ran gweithgareddau, mae gan y rhan fwyaf o felinau trafod Cymru allbwn sy'n nodweddiadol i'r cyrff hyn, sy'n cynnwys cymysgedd o erthyglau, adroddiadau, cylchgronau a digwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau melinau trafod Cymru – gan gynnwys adroddiadau ac erthyglau ar-lein – yn cynnwys allbwn gan eu staff eu hun, nid yn unig oherwydd bod ganddynt arbenigedd yn y pwnc o dan ystyriaeth. Fodd bynnag, mae'n nodweddiadol fod y Sefydliad Materion Cymreig yn darparu lle cyhoeddus amlwg ar gyfer trafodaeth gydag erthyglau ar ei wefan ac yn ei gylchgronau a gomisiynir gan awduron gwadd. Mae'r rhain yn dod yn bennaf o gymunedau proffesiynol, trydydd sector a busnes, gan barhau a'i genhadaeth wreiddiol o ddarparu platfform ar gyfer grwpiau yn y gymdeithas sifil.<sup>54</sup> Mae melinau trafod Cymru hefyd yn dibynnu ar allbwn gwesteion, yn aml gan aelodau o'u byrddau.

Mae mwy o wahaniaethau mewn sut y mae melinau trafod yn gweithio. Mae'r melinau trafod sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn defnyddio arbenigedd staff prifysgol, fel y gellir disgwyl, sydd wedyn yn cael ei goladu'n allbynnau fel adroddiadau ac erthyglau ar-lein. Mae'r

<sup>50</sup> Masters, A. (2017) First 'openly Brexit' Welsh think tank launches, 16 Chwefror. <https://www.itv.com/news/wales/2017-02-16/first-openly-brexit-welsh-think-tank-launches/>

<sup>51</sup> Rhestr Tŷ'r Cwmnïau: <https://beta.companieshouse.gov.uk/company/10583930/filing-history>

<sup>52</sup> Gwefan Nova Cambria <http://www.novacambria.wales/cy/amdanom> cyrchwyd 16 Medi 2019

<sup>53</sup> Gwefan Nova Cambria <http://www.novacambria.wales/cy/amdanom> cyrchwyd 16 Medi 2019

<sup>54</sup> Mae ei strategaeth ddiweddarach yn canolbwyntio ar alluogi cyfranogiad ehangach o fewn trafodaeth gyhoeddus

melinau trafod gwleidyddol, eto fel y gellir disgwyl, yn defnyddio syniadau eu haelodau a'u cefnogwyr.

Mae Sefydliad Bevan a'r Sefydliad Materion Cymreig yn wahanol eto. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn ymgynnull rhanddeiliaid traws-sector i greu tystiolaeth a sicrhau ymrwymadau i 'syniadau disglair i drawsnewid Cymru'. Mae'r rhain yn seiliedig ar dair thema newydd a nodwyd gan ei aelodau. Yn ogystal, mae grwpiau cynghori o aelodau ac arbenigwyr o sectorau gwahanol yn llywio prosiectau penodol a ariennir. Model Sefydliad Bevan yw cyflogi staff sydd ag arbenigedd yn ei feysydd o ddiddordeb. Elfen bendant yn ei theori o newid yw creu tystiolaeth a mewnwediadau gan wrando ar bobl y mae mater wedi effeithio arnynt, yn ogystal â sicrhau mewnbwn arbenigol drwy grwpiau cynghori bach.

Mae gan Gomisiwn Bevan ddull ychydig yn wahanol. Ei brif weithgaredd yw cefnogi arloesedd mewn ymarfer drwy Academi Bevan, sy'n cael ei darparu ganddo, a 'rhaglen enghreifftiol', er bod ganddo beth allbynnau ar ffurf adroddiadau ac erthyglau sy'n ymwneud â'r rhaglen yn bennaf.

## 6.2. Statws cyfreithiol a chyllid

Er nad oes llawer ohonynt, mae amrywiaeth o fathau o felinau trafod yng Nghymru. Mae Tabl 2 yn crynhoi ffurf gyfreithiol, incwm a gwariant a niferoedd staff pob melin drafod.

Mae melinau trafod Cymru yn gymysgedd o gwmnïau sy'n gyfyngedig drwy warant, y mae rhai ohonynt yn elusennau, adrannau prifysgol ac un cwmni preifat. Mae graddfa fach a breuder cymharol melinau trafod Cymru yn sefyll allan, gydag un eithriad nodedig. Mae gan nifer o felinau trafod incwm dibwys ac nid oes gan yr un ohonynt ac eithrio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru incwm o fwy na £400,000. Mewn cyferbyniad, mae gan felinau trafod y DU incymau o filiynau o bunnoedd: incwm y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn ei flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd £8.8 miliwn, incwm y Sefydliad Economaidd Newydd oedd £3.3 miliwn, ac incwm y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus oedd £3 miliwn.

Mae gan bawb ond Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru nifer fach o staff neu ddim staff o gwbl. Mae'r rheini sydd heb staff yn dibynnu ar ymdrechion gan wirfoddolwyr i gynnal eu hallbwn, diweddarau eu gwefannau a threfnu digwyddiadau. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yw'r eithriad gyda nifer weddol fawr o staff a pheth diogelwch ariannol, o leiaf mewn cymhariaeth ag eraill.

**Tabl 1: Arolwg o weithgareddau gan felinau trafod Cymru**

	Y tri adroddiad diweddaraf			Erthyglau ar-lein	Cylchgrawn	Digwyddiadau	Gweithgareddau eraill	Nodiadau
Comisiwn Bevan	<b>Iechyd</b> Seeing the big picture – a gwerthuso Rhaglen Enghreifftiol Bevan (Ionawr 2019)	<b>Iechyd</b> Transformation from within: a compendium showcasing Bevan Exemplar projects from 2017-18 (Ionawr 2019)	<b>Iechyd</b> Measuring healthcare outcomes (Rhagfyr 2018)	Erthyglau ar gyfartaledd tair gwaith y mis ond ni chyhoeddwyd unrhyw un ers Ebrill 2019. Gan 'hyrwyddwyr Bevan', yn bennaf.	Na	Cynhadledd flynyddol, gan gynnwys digwyddiadau ad hoc	Rhaglen 'Arloeswyr Bevan' ar gyfer gweithwyr proffesiynol gofal iechyd i dreialu a phrofi syniadau arloesol.	Mae rhaglen waith ddiweddaraf Comisiwn Bevan yn gorffen yn 2019.
Sefydliad Bevan	<b>Tlodi</b> Back to school? Local variations in help with costs of school meals and school uniforms (Medi 2019)	<b>Tlodi</b> Putting Poverty at the centre of the Welsh Government's 2020/21 budget (Awst 2019)	<b>Economi</b> Prosperous valleys, resilient communities (Gorffennaf 2019)	Erthyglau unwaith yr wythnos ar gyfartaledd, gan staff yn bennaf.	le - cyhoeddir <i>Exchange</i> tair gwaith y flwyddyn.	le. Cymysgedd ad hoc o gynadleddau, seminarau, trafodaethau bord gron a sgyrsiau	Cyflwyno tystiolaeth reolaidd i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ymchwiliadau'r Cynulliad.	
Canolfan Astudiaethau Cymreig	<b>Economi</b> Cut then scrap: The case against Air Passenger Duty (Mawrth 2019)	<b>Llywodraeth</b> A Lobbyist Register for Wales (Mawrth 2018)	<b>Brexit</b> Brexit and a UK Customs Union (Chwefror 2018)	Erthyglau ysbeidiol gan ysgrifenyddwyr gwadd	Na	Dim byd ers 2017.	Na	
Gorwel	<b>Llywodraeth</b> Playing the royal card: A royal palace for Wales? (Ebrill 2018)	<b>Gwleidyddiaeth</b> Regional AMs and representative democracy (Mehefin 2017)	<b>Cydraddoldeb</b> A plea for pan-generational fairness (Ionawr 2017)	Eitemau newyddion ac erthyglau ysbeidiol iawn	Na	Ysbeidiol.	Na.	



Sefydliad Materion Cymreig	<b>Yr economi ac ynni</b> Beth sy'n dylanwadu ar ymgysylltiad cymunedol a lleol ag ynni adnewyddadwy yng Nghymru? (Ebrill 2019)	<b>Yr economi ac ynni</b> A plan for Wales' renewable energy future. Essential actions to re-energise Wales by 2035 (Mawrth 2019)	<b>Yr economi ac ynni</b> How to protect, promote and achieve scale in community and local ownership of renewable energy (Mawrth 2019)	<b>Click on Wales:</b> mae'n cyhoeddi pum erthygl yr wythnos gan awduron gwadd. <b>Cyfres o bodlediadau:</b> tua bob mis ond y diweddaraf ym mis Mai 2019	Ie – cyhoeddir yr agenda ddwywaith y flwyddyn.	Ie. Hyfforddiant proffesiynol, trafodaethau bord gron, lansio prosiectau, cynadleddau.	Mae cymheiriaid y Sefydliad Materion Cymreig yn cydnabod cyfraniad at y gymdeithas sifil. Mae ambell dystiolaeth i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ymchwiliadau'r Cynulliad.	Strategaeth newydd ar gyfer cyhoeddiad yn hydref 2019.
Academi Morgan [1]	Dim byd wedi'i gyhoeddi			Erthyglau misol gan staff a myfyrwyr. Y diweddaraf ym mis Mehefin 2019.	Na.	Oes, rhaglen ad hod o gynadleddau, seminarau a sgyrsiau.	Na	
Nova Cambria	Dim byd wedi'i gyhoeddi			Blog: yn llai na misol. Traethodau ac erthyglau: ad hoc – amllder yn aneglur.	<i>New Nation</i> bob chwarter.	Dim byd wedi'i restru	Na	
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru	<b>Llywodraeth</b> Wedi Cyrraedd y Pwynt Tyngedfennol? Llywodraeth Leol Cymru a Chyni (Mehefin 2019)	<b>Gofal cymdeithasol</b> Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru (Mai 2019)	<b>Llywodraethu</b> Pwerau ac Ysgogiadau Polisi: Beth sy'n gweithio i gyflawni polisiâu Llywodraeth Cymru? (Mai 2019)	<b>Sylwebaeth:</b> Rhwng un a 2 bob mis, yn gysylltiedig â chyhoeddiadau. <b>Podlediadau:</b> cyhoeddwyd un yn unig.	Cynllun Prentisiaeth Ymchwil  Cynllun Cymrodorion Polisi  Secondiadau	Cyhoeddwyd y blaenraglen waith yn hydref 2019	Na	

[1] Cafodd marwolaeth ei chyfarwyddwr, yr Athro Mike Sullivan, effaith ar allbwn Academi Morgan.

Noder: Mae'r tabl yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddir ar wefannau melinau trafod yn yr wythnos sy'n dechrau 2 Medi 2019. Nid yw felly yn adlewyrchu gweithgareddau heb eu cyhoeddi gan y felin drafod na weithgareddau ar y gweill nad oeddent wedi eu cyhoeddi.

**Tabl 2: Statws cyfreithiol ac ariannol melinau trafod Cymru**

<b>Comisiwn Bevan</b>	Cwmni cyfyngedig trwy warant	Cyfrifon ddim ar gael eto	6
<b>Sefydliad Bevan</b>	Cwmni cyfyngedig trwy warant Elusen gofrestredig	Incwm: £244,000* Gwariant: £175,837 Cronfeydd rhydd: £77,328 * Gan gynnwys incwm a gafwyd ymlaen llaw	4
<b>Canolfan Astudiaethau Cymreig</b>	Cwmni cyfyngedig trwy gyfalaf cyfrannau	Asedau net: £9	Dim
<b>Gorwel</b>	Cwmni cyfyngedig trwy warant	Asedau net: £14,659	2
<b>Sefydliad Materion Cymreig</b>	Cwmni cyfyngedig trwy warant Elusen gofrestredig	Incwm: £327,008 Gwariant: £314,168 Cronfeydd rhydd: £70,280	6
<b>Academi Morgan</b>	Rhan o Brifysgol Abertawe	Ddim ar gael	Rhestrir naw ar y wefan
<b>Nova Cambria</b>	Cwmni cyfyngedig trwy warant	Heb eu cyflwyno eto	Ddim ar gael
<b>Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru</b>	Rhan o Brifysgol Caerdydd	Grant ymchwil o £5 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd gan ESRC a Llywodraeth Cymru (gyda £1.75 miliwn o gymorth sefydliadol gan Brifysgol Caerdydd)	Rhestrir 17 ar y wefan

## 7. Heriau

Mae melinau trafod yn gyffredinol dan bwysau. Mewn traethawd didrugaredd a ysgrifennwyd yn 2008, mae Gerry Hassan yn cyhuddo melinau trafod o'r asgell dde a'r asgell chwith o ddod yn rhan o'r sefydliad gwleidyddol maent eisiau dylanwadu arno.<sup>55</sup> Maent yn cynhyrchu 'ymadroddion diflas, diystyr, cyfnewidiol' am 'ficro-gyflwyno a geiriau gwefr' yn lle heriau go iawn heddiw. Crëwyd eu syniadau gan 'bobl gonfensiynol', fe'u defnyddir fel plattformau gan wleidyddwyr, ac maent yn methu myfyrio ar eu rôl a'u harfer eu hun.

Tra gellir dadlau bod sylwadau fitriolaidd Hassan yn ormodol ac yn ysgubol, ceir gwir bryderon ynglŷn â gweithgareddau o leiaf rhai melinau trafod. Nid yw'r pryderon hyn yn berthnasol i felinau trafod Cymru yn ôl pob golwg, sydd bron i gyd yn dryloyw ynglŷn â'u hariannu a'u hamcanion. Fodd bynnag, mae risg y bydd yr heriau hyn yn cyrraedd Cymru, gan effeithio ar enw da cyfunol melinau trafod.

### 7.1. Tryloywder

Pryder allweddol am felinau trafod yn y DU yw pa mor agored ydynt ynglŷn â chyllid. Materion cyllid – prin yw'r rhoddwr neu'r noddwr nad yw'n disgwyl dim byd yn ôl o gwbl. Ar lefel fyd-eang, mae'r sefydliad Transparify yn rhoi sgôr i felinau trafod yn ôl pa mor agored ydynt o ran eu cyllid a ffactorau eraill.<sup>56</sup> Yn y DU, mae'n sgorio saith melin drafod yn 'hynod afloyw a thwyllodrus', gan eu cyhuddo o 'gymryd arian o ddwylo cudd y tu ôl i ddrysau caeedig'.<sup>57</sup> Yn yr un modd, mae Who Funds You yn asesu melinau trafod y DU.<sup>58</sup> Mae wedi rhoi'r safle isaf i bum sefydliad yn y DU, y mae pedwar ohonynt hefyd ar restr Transparify o sefydliadau afloyw. Fel y dywed cyfrannwr anhysbys i'r *Economist*:

... ymhell o fod wedi'u hymgoli ar drywydd mawrfrydig gwirionedd a rheswm, mae rhai ... melinau trafod wedi dechrau ymddangos yn fwy fel gynnu clyfar i'w llogi, yn barod i ddefnyddio unrhyw ddadl y bydd gwlad neu gorfforaeth yn ei rhoi iddynt<sup>59</sup>

Nid oes unrhyw felinau trafod yng Nghymru yn cael sgôr gan Transparify o Who Funds You, ond mae'r rhan fwyaf yn weddol agored ynglŷn â'u gweithgareddau. Mae'r melinau trafod hynny yng Nghymru y mae cyfrifon ar gael iddynt yn agored am o ble mae eu prif gyllid yn dod, er bod cyllid y rheini sydd heb gyflwyno cyfrifon eto neu sy'n rhan o sefydliadau mwy yn anhysbys.

### 7.2. Cynaliadwyedd ariannol

Pryder a fynegir yn llawer llai aml mewn perthynas â melinau trafod y DU yw eu cynaliadwyedd ariannol, er bod ffyniant melinau trafod yn amrywio wrth iddynt goli neu ennill poblogaeth. Gellir dadlau mai'r her fwyaf ydyw i felinau trafod Cymru. Mae gan gymdeithas sifil a melinau trafod gwleidyddol nid yn unig gyllidebau bach ond mae ganddynt incwm bregus hefyd. Mae Sefydliad Bevan a'r Sefydliad Materion Cymreig yn adrodd ar heriau sylweddol o ran cwrdd â'u costau 'craidd' – gorbenion fel cyllidebau i'r adeilad, cyfrifyddiaeth a chyfathrebu.<sup>60</sup> <sup>61</sup> Mae'r ddau hefyd yn ddibynnol iawn ar incwm o ymddiriedolaethau a sefydliadau ar gyfer eu gwaith prosiect a'u gweithgareddau masnachol ar raddfa fach.

<sup>55</sup> Hassan, G. (2008) **The Limits of the 'Think Tank' Revolution**. Open Democracy, 8 Medi. <https://www.opendemocracy.net/the-limits-of-the-think-tank-revolution>

<sup>56</sup> Gwefan Transparify <https://www.transparify.org/> cyrchwyd 16 Medi

<sup>57</sup> Transparify (2017) **Think Tanks in the UK 2017: Transparency, Lobbying and Fake News in Brexit Britain**. <https://www.transparify.org/publications-main>

<sup>58</sup> Gwefan Who Funds You <http://whofundyou.org/>

<sup>59</sup> Anhysbys (2019) Can think-tanks survive a post-fact world <https://www.economist.com/open-future/2019/05/29/can-think-tanks-survive-a-post-fact-world>, 29 Mai

<sup>60</sup> Adroddiad blynyddol a chyfrifon y Sefydliad Materion Cymreig 2017-18

<sup>61</sup> Adroddiad blynyddol a chyfrifon Sefydliad Bevan 2017-18

Golyga hyn y gall eu hincwm amrywio o flwyddyn i flwyddyn – dim ond yn ddiweddar iawn y mae'r ddwy felin drafod cymdeithas sifil hyn wedi bod yn gallu recriwtio staff ar gyfer rolau prosiect.

Mae holl felinau trafod y gymdeithas sifil a melinau trafod gwleidyddol yn gofyn am gefnogaeth ariannol neu roddion gan y cyhoedd a sefydliadau er mwyn cefnogi eu gwaith. Mae gan y Sefydliad Materion Cymreig y nifer fwyaf o aelodau ac incwm ganddynt, tra ei fod yn bwynt dadleuol p'un ai dylid enwi cyfraniadau i gwmni preifat, y Ganolfan Astudiaethau Cymreig, yn 'rhoddion'.

### 7.3. Ansawdd yr allbwn

Mae pryderon cynyddol ynglŷn ag ansawdd gwaith rhai melinau trafod yn y DU, gyda thystiolaeth gymhellol fod ychydig ohono wedi ei lywio gan eu noddwyr. Mae'r holl felinau trafod yn wynebu anhawster cydbwyso rhwng cyllid a chanfyddiadau, ond caiff nifer eu harwain gan godau moeseg neu gytundebau am ymrwymiad cyllidwyr yn y broses o ddatblygu ymchwil a pholisi. Fodd bynnag, mae nifer o felinau trafod sydd wedi derbyn cyllid gan fusnesau wedi gwneud argymhellion wedyn sy'n cyd-fynd â'r buddiannau hynny. Er enghraifft, mae rhai melinau trafod wedi'u hariannu gan fuddiannau tybaco ac wedyn wedi cynnal ymchwil o blaid tybaco.<sup>62</sup> Darganfuwyd bod un felin drafod wedi galw am fuddsoddiad mewn adweithyddion niwclear bach wedi iddi gael ei hariannu gan gwmni sydd â buddiant yn y dechnoleg. Roedd galw gan un arall i'r GIG flaenoriaethu diagnosis a thriniaeth gynnar o anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd mewn adroddiad a ariannwyd gan gwmni a werthodd £1.7 biliwn o feddyginiaeth ar gyfer anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd yn 2016.<sup>63</sup>

Nid yw'n ymddangos bod melinau trafod Cymru wedi'u cyfaddawdu yn y ffordd hon. Mae'n bosib mai'r prinder cyllid allanol ei hun, yn enwedig o fuddiannau busnes, sydd wedi eu hamddiffyn rhag y risgiau o fod yn 'gwn i'w logi'. Meddai Balfour:<sup>64</sup>

mae dadleoli [melinau trafod] o fuddiannau cadarn yn creu heriau cyllido ond mae hefyd yn darparu eu gwerth i'r melinau trafod gorau: uniondeb, ansawdd, ac ymreolaeth rhag pŵer.

Pan fydd melinau trafod Cymru wedi'u hariannu'n allanol, maent yn gwneud tarddle'r cymorth hwnnw'n glir. Ond fel gyda'r pryderon ynglŷn â thryloywder, mae risg o hyd y bydd arfer gwael melinau trafod y DU yn maeddu'u henw da.

### 7.4. Agosrwydd gwleidyddol

Mae llawer o felinau trafod y DU yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn San Steffan. Nid yn unig y mae ganddynt berthynas agos rhwng staff a gwleidyddion, ond mae eu staff yn mynd a dod drwy 'ddrws troi' rhwng lobiwyr, pleidiau gwleidyddol, cynghorwyr y llywodraeth a buddiannau busnes.<sup>65</sup> Mae Hassan yn dadlau bod y berthynas 'losgachol' hon yn creu pellter rhwng melinau trafod a'r gymdeithas sifil ehangach.<sup>66</sup> Yn wir, mae Hassan yn awgrymu bod y model elit hwn o ddylanwadu yn un y dylid ei fabwysiadu

<sup>62</sup> Bruckner, T. (diddyddiad) Think tanks, evidence and policy: democratic players or clandestine lobbyists? <https://blogs.lse.ac.uk/impactofsocialsciences/2017/02/08/think-tanks-evidence-and-policy/>

<sup>63</sup> -- (2018) Big companies 'buy influence' with funding for think tanks, The Times 12 Ebrill <https://www.thetimes.co.uk/article/big-companies-buy-influence-with-funding-for-think-tanks-6x85mpx9g>

<sup>64</sup> Balfour, R. (2017) What are think tanks for? Policy research in the age of anti-expertise <http://www.lse.ac.uk/ideas/Assets/Documents/updates/LSE-IDEAS-What-are-think-tanks-for.pdf>

<sup>65</sup> Pautz, H. a Heins, E. (diddyddiad) **Government and 'independent expertise': think tanks represent a blind spot for critical analysis** <https://blogs.lse.ac.uk/politicsandpolicy/52710-2/>

<sup>66</sup> Hassan, G. (2008) **The Limits of the 'Think Tank' Revolution**. Open Democracy, 8 Medi. <https://www.opendemocracy.net/the-limits-of-the-think-tank-revolution>

gan felinau trafod sydd â buddiannau busnes yn unig – dylai'r rheini sy'n ceisio adlewyrchu buddiannau'r gymdeithas sifil, mae'n awgrymu, fod yn 'bell o feddylfryd cul San Steffan a'r felin drafod gonfensiynol'.

Mae rhai melinau trafod yn y DU eisoes yn gwneud hyn yn union. Maent yn ceisio gweithio mewn a gyda chymunedau ar lawr gwlad, ac mae rhai wedi symud eu ffocws oddi wrth ddylanwadu ar yr elft gwleidyddol i geisio newid barn y cyhoedd. Yn wir, dadleuwyd bod angen i felinau trafod ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r cyhoedd oherwydd bod y cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu grym llais y cyhoedd ac wedi lleihau rôl y mewnwr honedig.<sup>67</sup>

Nid yw'r pryderon hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o felinau trafod cymdeithas sifil yng Nghymru. Er gwaethaf maint bach Cymru a chymhlethdod y berthynas sydd gan lawer o unigolion â gwleidyddion a phenderfynwyr, nid oes yr unrhyw un ohonynt sy'n mwynhau'r math o berthynas elitaidd clyd sydd rhwng melinau trafod Llundain a San Steffan. Yn wir, mae melinau trafod cymdeithas sifil yng Nghymru yn ofalus iawn o ran sicrhau eu bod yn ymgysylltu ar draws y sbectrwm gwleidyddol ac nid oes yr un ohonynt, hyd y gwyr yr awdur, wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg i'r rhai a ymgymerir gan felinau trafod y DU weithiau, fel cynnal seminarau yn 11 Downing Street<sup>68</sup> neu'n cyfyngu mynediad i adroddiadau drafft i aelodau o un blaid wleidyddol.<sup>69</sup>

## 7.5. Effaith

Yr olaf ond nid lleiaf yw cwestiynau ynglŷn ag 'effaith' melinau trafod. Mae'n hynod o anodd i felinau trafod brofi eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Meddai Stone, 'Anaml y bydd cyfatebiaeth un wrth un rhwng llyfr neu astudiaeth a newid polisi penodol.'<sup>70</sup> Yn aml, mae unrhyw newidiadau y mae melinau trafod yn annog penderfynwyr i'w mabwysiadu yn araf eu cyflawni ac yn aml mae datblygiad polisi pellach gan y llywodraeth yn newid neu'n weithiau gwanhau'r argymhellion gwreiddiol. Yn gyffredinol, mae melinau trafod yn troi at fesurau anuniongyrchol o'u heffeithlonrwydd – er enghraifft, eu sylw yn y cyfryngau – yn lle tystiolaeth o effaith uniongyrchol.

Mae rhai wedi dadlau bod melinau trafod yn fwy effeithiol o ran rhoi syniadau newydd ar yr agenda, gan helpu i lywio a fframio'r ddadl gyhoeddus, yn hytrach na hyrwyddo argymhellion polisi penodol. O ran melinau trafod sy'n dibynnu ar gyllid allanol, mae cyflawni ar sail canlyniad weddol aneglur a hirdymor yn heriol wir.

Mae melinau trafod Cymru wrth gwrs yn honni bod 'ganddynt effaith' neu eu bod yn 'gwneud gwahaniaeth', er nad yw'n hawdd iddynt ddiffinio neu ddangos y gwahaniaeth y maent yn ei gael – ac nid ydynt yn gwneud hyn yn aml chwaith. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yw'r eithriad: yn ogystal â'i thystiolaeth ei hun o effaith, yn seiliedig ar ei theori newid a fframwaith effaith, mae'r ganolfan a'i rhagflaenydd, y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, wedi bod yn destun adolygiadau allanol gan eu cyllidwyr.

## 8. Casgliad

Nid yw'r ddadl academiaidd hir a heb ei datrys am felinau trafod wedi effeithio ar gynnydd sefydliadau ymreolaethol sy'n ceisio llywio polisi cyhoeddus. Yn wir, gellir dadlau ei fod wedi

<sup>67</sup> Muller, A. a Hashemi, T. (2019) **Why the public should matter to think tankers** <https://weareflint.co.uk/blog/2019/1/27/why-the-public-should-matter-to-think-tankers>

<sup>68</sup> Comisiwn Elusennau (2008) **Inquiry Report: Smith Institute** <https://web.archive.nationalarchives.gov.uk/20080906031320/http://www.charity-commission.gov.uk/Library/investigations/pdfs/smithir.pdf>

<sup>69</sup> Comisiwn Elusennau (2014) **Operational Case Report: Institute for Public Policy Research** [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/431599/ocr\\_institute\\_for\\_public\\_policy\\_research.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/431599/ocr_institute_for_public_policy_research.pdf)

<sup>70</sup> Stone, D. (1996) **Capturing the political imagination: think tanks and the policy process**. Frank Cass: Llundain t. 219

tynnu sylw oddi wrth y cwestiynau ehangach am y berthynas rhwng tystiolaeth ac ideoleg wrth wneud penderfyniadau, y mecanweithiau a ddefnyddir gan grwpiau elitaidd pwerus i sicrhau dylanwad, a'r mater o ran ble yn union y daw polisiau a syniadau newydd.

Mae Cymru wedi gweld nifer y melinau trafod yn cynyddu, gan gynnwys melinau trafod cymdeithas sifil ymreolaethol, melinau trafod yn seiliedig ar dystiolaeth wedi'u hariannu gan y llywodraeth neu'n gysylltiedig â phrifysgol, a melinau trafod gwleidyddol. Maent i gyd wedi'u sbarduno gan ddatganoli, gyda Llywodraeth Cymru yn ganolbwynt i'w gwaith.

Fel sawl maes o fewn y gymdeithas sifil yng Nghymru, dominyddir ei sector melin drafod gan un sefydliad gweddol fawr a ariennir gan y llywodraeth gyda'r gweddill llawer yn llai a llawer mwy bregus. Fel y cyfryw, gellir dadlau eu bod yn llai am hyrwyddo buddiannau elitaidd neu gynnal cysylltiadau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli ac yn fwy am weithio yn y gymdeithas sifil ehangach a chyda hi. Efallai y bydd rhai buddiannau yn y dyfodol yn sylweddoli pŵer gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau ac yn ceisio prynu dylanwad drwy felinau trafod Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y dylai melinau trafod eu hun yn ogystal â'r gymuned sifil ehangach fod yn wylidwrus ohono.

Mae melinau trafod Cymru yn wynebu heriau mawr. Mae ganddyn nhw eu gofynion mewnol o gynhyrchu cyllid, darparu allbwn o ansawdd uchel a chyrraedd y gynulleidfa gywir (pwy bynnag fydd hynny), i gyd ar linydd esgidiau. Ond maent hefyd yn wynebu'r risg y bydd eu henw da yn cael ei ddirywio os bydd gwarth dros felinau trafod y DU yn cyrraedd Cymru. Darganfuwyd arolygon barn gan asiantaeth cyfathrebu mai 60 y cant yn unig o aelodau'r cyhoedd oedd yn gwybod beth yw melin drafod, a dim ond 3.7 y cant oedd yn gallu enwi un.<sup>71</sup>

P'un a ydych chi'n caru melinau trafod, yn casáu melinau trafod neu ddim hyd yn oed yn gwybod neu'n gofalu, mae melinau trafod Cymru yn nodwedd fach ond sefydlog o'r gymdeithas sifil yng Nghymru. Fel y maent ar hyn o bryd, maent yn bell o'r 'arian tywyll' sy'n llychwino llawer o felinau trafod Llundain. A chyn belled â'r sefyllfa hon yn parhau, dylid cydnabod melinau trafod Cymru fel rhan o'r gymysgedd gyfoethog o sefydliadau sy'n cyfrannu at ddatblygu polisi mewn gwlad sy'n aeddfedu.

---

<sup>71</sup> Anhysbys (2019) **New think tank ranking: less than 4% of the UK public can name a think tank**  
<https://weareflint.co.uk/blog/2019/6/25/new-research-less-than-4-of-the-uk-public-can-name-a-think-tank>